Annual Report of Councillor Chris Bithell 2017/ 18
Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd Chris Bithell 2017/18

Membership of Internal Committees

I am the **Cabinet Member for Planning and Public Protection** and I am politically responsible for the planning and building control functions of the council as well as public protection such as trading standards, food standards and hygiene, pest control etc. I attend all **Cabinet Meetings** held each month as well as monthly **Informal Cabinet Meetings** to discuss matters of future policy development, planning and reports. I also attend regular monthly meetings of the **Planning and Environment Programme Board** with relevant officers and other Cabinet members. I also am a member of the **Planning Committee** which makes decisions on all planning applications referred to it. This also involves attending Planning site visits where these are necessary. These take places two days before the Committee meets to discuss the particular application. I also attend the meeting of the Full Council.

As Cabinet Member, I also chair the monthly **Planning Strategy Group** which is involved in the detailed aspects of drafting the Local Development Plan which will replace the Unitary Development Plan for the county and will provide the basis for all decisions regarding future housing, business, industrial and leisure development in the county as well as providing the green barriers and the protection of the open countryside.

As I am a Cabinet member, I am not allowed to sit on any of the Scrutiny Committees. However, I do attend the **Environment Scrutiny Committees** to deliver reports and answer questions when items which involve my particular Cabinet portfolio (Planning and Public Protection) are being reported or discussed e.g. the Annual Food Standards report.

I attend meetings of the **Children's Services Forum** which 1 have chaired for 14 years. This body was set up following the Victoria Cllmbe Report to scrutinise all matters concerning the **Corporate Parenting** role of the Council which involves the care and interests of all **Looked After Children** in the County. It meets bi-monthly with key Council officers, Cabinet Members, representatives of the relevant partner bodies such as BCUHB, Foster Parents etc. as well as representatives of the young people in care themselves.

I also sit on **SACRE, (the Standing Advisory Committee for Religious Education)** in schools in the county and the **Education Consultative Committee** which meets with representatives of the teacher unions and school workforce unions to discuss matters of concern raised by the unions. I am also a member of the **Board of Theatr Clwyd** which Is responsible for the running of the highly successful and renowned theatre, which is owned and operated by Flintshire CC.

Membership of External Bodies

I represent the **County on the North Wales Safer Communities Board**. I am also a representative of the County on the **North Wales Police and Crime Commissioner's Panel** where we scrutinise and question the Commissioner regarding his Policing Plan priorities for policing in North Wales and how this is funded.

Annual Report of Councillor Chris Bithell 2017/ 18
Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd Chris Bithell 2017/18

Constituency Activity

As well as dealing with day to day issues which arise and affect my constituents, during the past 12 months, I have been heavily involved in the development of a scheme to improve safety around a school in my Ward. The Council submitted a bid to Welsh Government for funding of improvements around Ysgol Bryn Coch, the largest Primary school in the town, county and, indeed in Wales. This has involved me attending a number of meetings with Highways staff at Alltami depot, site visits and several public consultation meetings (daytime and evening meetings) with the Headteacher, teachers, Governors, parents and local residents to discuss the proposals with them and try to resolve issues which have been raised regarding the proposals. This has resulted in a number of redrafts of the original proposals which has necessitated further consultation with interested parties. I have attended all of these meeting s to listen to and try to resolve issues raised. This has not always been easy because different individuals and groups have differing interests and concerns. Although the scheme has now been completed and operational we are now in discussion with residents concerning a Residents only Parking scheme which they feel is now needed because of parking issues thrown up by the scheme. We have had at least three consultation meetings with residents over this.

I am available to my constituents by telephone, e-mail, or home visits. I also hold a regular **monthly surgery** in the Mold Town Hall on the second Saturday of the month (except August) when anyone can call in without an appointment and discuss matters of concern with me face to face. I have held this surgery for 44 years. I also produce an **annual newsletter** for residents of the Ward to keep them informed about what is going on in the Ward and Town and to seek their views on local issues of current concern. I used to do two newsletters a year until I developed knee problems. The newsletter is written, published and paid for by me and is distributed by me with help from friends and family. It is a regular newsletter, unlike some which only appear before an election

Initiatives and Special Activities

I have been heavily involved in the above initiative to resolve long standing parking and safety issues around the Bryn Coch School as mentioned above.

I have also been heavily involved in the a **Heritage Lottery Bid** to rejuvenate **Bailey Hill** (a former Motte and Bailey Castle site in the heart of Mold) under the Parks for People initiative. We initially secured over £43,000 for Phase 1 to employ a landscape consultant to work with us to plan and develop a bid and we have just learned that we have been successful in obtaining over £900,000 to develop the scheme. This has involved many meetings of the Steering Group, of which I am a member, now representing Mold Town Council,(formerly I represented the County Council) as well as meetings of the Friends of Bailey Hill of which I am also a member. I am now a Trustee and Board member of the Registered Charity of Friends of Bailey Hill / Ffrindiau Bryn Beili which has just been awarded charitable status. This has also been very time consuming in preparing a constitution and policies.

Annual Report of Councillor Chris Bithell 2017/ 18
Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd Chris Bithell 2017/18

Other Activities

I am a Vice -Chairman, Trustee and Member of the **Deeside Domestic Abuse Safety Unit** (DASU) a charity based in Shotton which gives refuge, advice and support to those who are victims of domestic abuse in all its forms. I have been a Trustee for **10 years**. We have recently merged with another support group serving Denbighshire. We were the first group in Wales to offer a service not only to women victims but also to men.

I am also a **Trustee and Board Member of the Daniel Owen Community Association** which runs the well used and much valued community centre in the heart of Mold. It provides a venue for meetings of local groups, charity fund raising coffee morning, sales and space for exhibitions etc. It is now a Food Hub for those wishing to secure and purchase a decent meal e.g. elderly and infirm members of the community.

I am a member of **St Mary's Parish Church Mold**, where I am a **Worship leader** and member of the Church Committee (formerly the Parochial Church Council of which I was Secretary for 22 years).

I am also an **Executive Member of the Mold and District Civic Society** and former Treasurer. I have been involved with the society in erecting White on Blue information plaques on historic buildings in the town and, more recently, in developing apps for use by visitors and tourists to tell them something of the history of the town and the significance of prominent local buildings

I am a member of the **Mold Town Council** of which I have been a member for **44 years** and have been Mayor of the town three times. I am the Chairman of the Town Council's **Cemetery Committee** and a member of the **Community Development and Regeneration Committee**. I was also a member of the **Mold Town Partnership Committee** which regularly met with representatives of the business community in the town This has recently been merged with the Council's **CDR Committee** with business representatives being co-opted as non-voting members.

I am a long standing member of the **Mold and District Labour Party** and, of course, I am elected as a **Labour Councillor**. I attend local branch meetings, Constituency meetings and Labour Group meetings once a month. I am the **Chair of the Flintshire County Council labour Group** a position I have held for **18 years**. Flintshire CC is a Labour led Council as is the Mold Town Council.

Learning & Development

As a former teacher, I am a great believer in lifelong learning and for me that applies to being a Councillor too. Although I have been a Councillor for 48 years, there is still mush to learn and you have to keep abreast with new developments and new legal requirements. Therefore, I have attended regular training sessions such as the **Planning Training** which we are expected to attend at least 75% of the sessions in order to remain members of the Planning Committee. I have also attended a recent training session on the new laws affecting Data Protection. I have also attended various

workshops e.g. those concerned with budget preparation and the difficult decisions we will have to take in order to produce a balances budget. I also have attended recent Workshops on the Council Plan and Performance Reporting.

Annual Report of Councillor Chris Bithell 2017/ 18
Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd Chris Bithell 2017/18

Aelodaeth o Bwyllgorau Mewnol

Fi yw'r Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ac rwy'n wleidyddol gyfrifol am swyddogaethau cynllunio a rheoli adeiladu'r cyngor yn ogystal â diogelu'r cyhoedd, er enghraifft safonau masnach, safonau bwyd a hylendid, rheoli plâu ayyb. Rwy'n mynychu'r holl **Gyfarfodydd Cabinet** a gynhelir bob mis yn ogystal **â Chyfarfodydd Anffurfiol y Cabinet** a gynhelir yn fisol i drafod materion yn ymwneud â datblygu polisi'r dyfodol, cynllunio ac adroddiadau. Rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd misol rheolaidd y **Bwrdd Rhaglen Cynllunio a'r Amgylchedd** gyda swyddogion perthnasol ac aelodau Cabinet eraill. Rwyf hefyd yn aelod o'r **Pwyllgor Cynllunio** sy'n gwneud penderfyniadau ar yr holl geisiadau cynllunio sy'n cael eu cyfeirio ato. Mae hyn yn cynnwys mynychu ymweliadau â safleoedd cynllunio os oes angen, Mae'r rhain yn digwydd dau ddiwrnod cyn i'r Pwyllgor gyfarfod i drafod y cais penodol hwnnw. Rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor Llawn.

Fel Aelod Cabinet rwyf hefyd yn cadeirio'r **Grŵp Strategaeth Cynllunio** sy'n cymryd rhan yn y gwaith manwl o ddrafftio'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n disodli'r Cynllun Datblygu Unedol ar gyfer y sir a bydd yn darparu'r sail ar gyfer yr holl benderfyniadau am ddatblygiad tai, busnesau, diwydiant a hamdden yn y sir yn ogystal â darparu'r rhwystrau gwyrdd a diogelu cefn gwlad.

Gan fy mod yn Aelod Cabinet, nid wyf yn cael eistedd ar unrhyw un o'r Pwyllgorau Craffu. Fodd bynnag, rwyf yn mynychu'r Pwyllgorau Craffu Amgylcheddol i gyflwyno adroddiadau ac i ateb cwestiynau pan fydd eitemau'n ymwneud â'm portffolio Cabinet penodol i'n cael eu trafod (Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd) e.e. yr adroddiad Safonau Bwyd Blynyddol.

Rwy'n mynychu cyfarfodydd y **Fforwm Gwasanaethau Plant** yr wyf wedi ei gadeirio ers 14 o flynyddoedd. Sefydlwyd y corff hwn yn dilyn Adroddiad Victoria Climbe i graffu ar faterion yn ymwneud a rôl **Rhianta Corfforaethol** y Cyngor sy'n cynnwys gofal a buddiannau'r holl **Blant Sy'n Derbyn Gofal** yn y sir. Mae'n cyfarfod bob deufis gyda swyddogion allweddol y Cyngor, Aelodau Cabinet, cynrychiolwyr y cyrff partner perthnasol megis BIPBC, Rhieni Maeth ayyb yn ogystal â chynrychiolwyr y bobl ifanc mewn gofal eu hunain.

Rwyf hefyd yn eistedd ar SACRE **(y Pwyllgor Ymgynghorol Sefydlog dros Addysg Grefyddol)** mewn ysgolion yn y sir a'r Pwyllgor Addysg Ymgynghorol sy'n cyfarfod â chynrychiolwyr undebau llafur ac undebau gweithlu'r ysgolion i drafod materion o bryder a godir gan yr undebau. Rwyf hefyd yn aelod o Fwrdd Theatr Clwyd sydd yn gyfrifol am redeg y theatr lwyddiannus a chlodfawr hon sy'n eiddo i, ac yn cael ei rhedeg gan Gyngor Sir y Fflint.

Aelodaeth o Gyrff Allanol

Rwy'n cynrychioli'r **Sir ar Fwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru**. Rwyf hefyd yn gynrychiolydd y Sir ar **Banel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru** lle rydym yn craffu ar ac yn holi'r Comisiynydd am y blaenoriaethau yn ei Gynllun Plismona ar gyfer plismona Gogledd Cymru a sut yr ariennir hyn.

Annual Report of Councillor Chris Bithell 2017/ 18
Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd Chris Bithell 2017/18

Gweithgaredd yn fy Etholaeth

Yn ogystal ag ymdrin â materion dydd i ddydd sy'n codi ac yn effeithio ar fy etholwyr, yn ystod y 12 mis diwethaf rwyf wedi bod yn brysur iawn gyda chynllun i wella diogelwch o amgylch ysgol yn fy Ward. Cyflwynodd y Cyngor gais i Lywodraeth Cymru am arian ar gyfer gwelliannau o amgylch Ysgol Bryn Coch, yr ysgol gynradd fwyaf yn yr Wyddgrug, yn y sir ac yn wir yng Nghymru. Mae'r gwaith wedi cynnwys mynychu sawl cyfarfod gyda staff Priffyrdd yn nepo Alltami, ymweliadau safle a sawl cyfarfod ymgynghori cyhoeddus (yn ystod y dydd a gyda'r nosau) gyda'r Pennaeth, athrawon, llywodraethwyr, rhieni a phreswylwyr lleol i drafod y cynigion gyda nhw a cheisio datrys materion sydd wedi cael eu codi mewn perthynas â'r cynigion. Mae hyn wedi arwain at ailddrafftio'r cynnig gwreiddiol sawl gwaith gan olygu y bu'n rhaid ymgynghori ymhellach â'r partïon â budd. Rwyf wedi mynychu'r cyfarfodydd hyn i gyd i wrando ar, ac i geisio datrys y materion a godwyd. Nid yw hyn wedi bod yn hawdd bob amser oherwydd bod gan wahanol unigolion a grwpiau fuddiannau a phryderon gwahanol. Er bod y cynllun bellach wedi'i gwblhau ac yn weithredol rydym yn awr yn cynnal trafodaethau gyda phreswylwyr am gynllun Parcio i Breswylwyr Yn Unig gan eu bod yn teimlo bod angen hyn rŵan oherwydd y problemau parcio y mae'r cynllun wedi eu hachosi. Rydym wedi cael o leiaf dri chyfarfod ymgynghori gyda phreswylwyr ynglŷn â hyn.

Rwyf ar gael i f'etholwyr dros y ffôn, e-bost neu drwy ymweliadau â chartrefi. Rwyf hefyd yn cynnal cymhorthfa fisol reolaidd yn Neuadd y Dref yr Wyddgrug (ar wahân i fis Awst) lle gall unrhyw un alw i mewn heb apwyntiad a thrafod materion sy'n peri pryder iddynt wyneb yn wyneb. Rwyf wedi bod yn cynnal y gymhorthfa hon ers 44 o flynyddoedd. Rwyf hefyd yn cynhyrchu newyddlen flynyddol ar gyfer preswylwyr y Ward i roi gwybod iddyn nhw beth sy'n mynd ymlaen yn y ward ac yn y dref ac i ofyn eu barn ar faterion lleol cyfredol sy'n peri pryder. Roeddwn yn arfer cynhyrchu dwy newyddlen yr wythnos tan i mi ddatblygu problemau â'm pen-glin. Fi sy'n ysgrifennu, yn cyhoeddi ac yn talu am y newyddlen hon a fi sy'n ei dosbarthu gyda chymorth teulu a ffrindiau. Mae'n newyddlen reolaidd, yn wahanol i rai sydd yn ymddangos dim ond cyn etholiad.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi bod yn brysur dros ben gyda'r fenter a nodir uchod i ddatrys materion parcio a diogelwch hirsefydlog o amgylch ysgol Bryn Coch.

Rwyf hefyd wedi chwarae rhan flaenllaw yn y cais i Gronfa'r Loteri Treftadaeth i adfywio **Bryn y Beili** (safle castell Tomen a Beili yng nghanol yr Wyddgrug) o dan y fenter Parciau i'r Bobl. I ddechrau llwyddom i gael dros £43,000 ar gyfer Cam 1 a chyflogi ymgynghorydd tirlunio i weithio gyda ni i gynllunio a datblygu cais ac rydym newydd gael gwybod ein bod wedi llwyddo i gael dros £900,000 i ddatblygu'r cynllun. Mae hyn wedi cynnwys llawer o gyfarfodydd o'r Grŵp Llywio, yr wyf yn aelod ohono - bellach yn cynrychioli Cyngor Tref yr Wyddgrug (cyn hynny roeddwn yn cynrychioli'r Cyngor Sir) yn ogystal â chyfarfodydd gyda Chyfeillion Bryn y Beili yr wyf hefyd yn aelod ohono. Yr wyf yn awr yn Ymddiriedolwr ac yn aelod o Fwrdd yr elusen gofrestredig Ffrindiau Bryn Beili sydd newydd

ennill statws elusennol. Mae paratoi cyfansoddiad a pholisïau'r elusen wedi cymryd llawer iawn o amser.

Gweithgareddau Eraill

Yr wyf yn Is-Gadeirydd, Ymddiriedolwr ac yn Aelod o Uned Diogelwch Camdriniaeth Ddomestig Glannau Dyfrdwy (DASU), elusen sydd wedi'i lleoli yn Shotton ac yn rhoi lloches, cyngor a chefnogaeth i'r rhai hynny sy'n ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig ar ba bynnag ffurf. Rwyf wedi bod yn Ymddiriedolwr ers **10 mlynedd.** Rydym yn ddiweddar wedi cyfuno â grŵp cefnogi arall sy'n gwasanaethu Sir Ddinbych. Ni oedd y grŵp cyntaf yng Nghymru i gynnig gwasanaeth i ferched ac i ddynion sy'n profi camdriniaeth ddomestig.

Yr wyf yn **Ymddiriedolwr ac yn Aelod o Fwrdd Cymdeithas Gymunedol Daniel Owen** sy'n rhedeg y ganolfan gymunedol yng nghanol yr Wyddgrug - canolfan y gwneir llawer o ddefnydd ohoni ac sy'n cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan y gymuned. Mae'n darparu lleoliad ar gyfer cyfarfodydd grwpiau lleol, boreau coffi i godi arian i elusennau, gwerthiannau a lle ar gyfer arddangosfeydd ac ati. Mae'n awr yn Ganolbwynt Bwyd ar gyfer pobl sydd eisiau prynu pryd da o fwyd e.e. yr henoed a'r mwyaf bregus yn ein cymuned.

Rwy'n aelod o **Eglwys y Plwyf y Santes Fair yn yr Wyddgrug** ble rwyf yn **arweinydd addoli** ac yn aelod o Bwyllgor yr Eglwys (Cyngor Eglwys y Plwyf gynt yr oeddwn yn yn ysgrifennydd iddo am 22 o flynyddoedd)

Rwyf hefyd yn **Aelod Gweithredol o Gymdeithas Ddinesig yr Wyddgrug a'r Cylch** ac yn gyn Drysorydd. Gyda'r gymdeithas rwyf wedi bod yn rhan o godi placiau gwybodaeth Gwyn ar Las ar adeiladau hanesyddol yn y dref, ac yn fwy diweddar, datblygu apiau i'w defnyddio gan ymwelwyr a thwristiaeth i ddweud rhywfaint o hanes y dref ac arwyddocâd adeiladau lleol blaenllaw.

Rwyf yn aelod o **Gyngor Tref yr Wyddgrug ers 44** o flynyddoedd ac wedi bod yn Faer y dref dair gwaith. Rwy'n Gadeirydd **Pwyllgor Mynwentydd** Cyngor y Dref ac yn Aelod o'r **Pwyllgor Datblygu ac Adfywio Cymunedol**. Roeddwn hefyd yn aelod o **Bwyllgor Partneriaeth Tref yr Wyddgrug** a oedd yn cyfarfod yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr y gymuned fusnes yn y dref. Mae'r Pwyllgor Partneriaeth wedi cyfuno'n ddiweddar gyda Phwyllgor **DaAC** y Cyngor gyda chynrychiolwyr busnes yn cael eu cyfethol fel aelodau heb bleidlais.

Rwy'n aelod hirsefydlog o **Blaid Llafur yr Wyddgrug a'r Cylch,** ac wrth gwrs yn **Gynghorydd Llafur** etholedig. Rwy'n mynychu cyfarfodydd y gangen leol, cyfarfodydd etholaeth a chyfarfodydd y Grŵp Llafur unwaith y mis. Rwy'n **Gadeirydd Grŵp Llafur Cyngor Sir y Fflint**, swydd yr wyf wedi ei dal

Annual Report of Councillor Chris Bithell 2017/ 18
Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd Chris Bithell 2017/18

ers **18 o flynyddoedd.** Mae Cyngor Sir y Fflint yn Gyngor a arweinir gan y blaid Lafur, fel y mae Cyngor Tref yr Wyddgrug**.**

Dysgu a Datblygu

Fel cyn athro, rwy'n credu'n gryf mewn dysgu gydol oes ac mae hynny'n berthnasol i fod yn Gynghorydd hefyd. Er fy mod yn Gynghorydd ers 48 o flynyddoedd, mae llawer i'w ddysgu o hyd a rhaid cadw i fyny gyda datblygiadau newydd a gofynion cyfreithiol newydd. Rwyf felly'n mynychu hyfforddiant rheolaidd megis yr Hyfforddiant Cynllunio yr oedd yn rhaid mynychu o leiaf 75% o'r sesiynau er mwyn gallu parhau i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio. Rwyf hefyd wedi mynychu sesiwn hyfforddi diweddar ar y cyfreithiau newydd sy'n dylanwadu ar ddiogelu data. Rwyf hefyd wedi mynychu amryw o weithdai e.e. rhai yn ymwneud a pharatoi'r gyllideb a'r penderfyniadau anodd y bydd yn rhai i ni eu gwneud er mwyn cynhyrchu cyllideb fantoledig. Rwyf hefyd wedi mynychu gweithdai diweddar ar Gynllun y Cyngor ac Adrodd ar Berfformiad.